

## **CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 12fed Mehefin, 2017, yn Ffestri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.45 p.m. hyd 8.40 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys E. Williams (Cadeirydd)  
Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Glyn Roberts, Harry Richards, Michael Strain  
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)  
Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Glenys Williams a Ms. Elin Hughes

### 19. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD A DERBYN SWYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

**Bu i'r aelodau** gyfetholwyd arwyddo Datganiad Derbyn Swydd a'u bod yn parchu'r Côd Ymddygiad (Y Cynghorwyr David Brunelli, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones a Michael Strain).

### 20. **YMWELIAD DR. O.G. MORRIS O FEDDYGFA RHYDBACH**

**Croesawodd y Cadeirydd** Dr. O.G. Morris o Feddygfa Rhydbach i'r cyfarfod a rhoddodd gyfle iddo annerch yr aelodau.

Dywedodd Dr. Morris fod yr apwyntiadau ar y diwrnod yn debygol o barhau ond fod peth newid wedi bod sef apwyntiadau bellach yn 15 munud yn lle 10 munud; dechrau'n hwyrach yn y bore ac felly gorffen yn hwyrach amser cinio; apwyntiadau yn dechrau ynghynt yn y prynhawn; apwyntiadau 'nawr yn cael eu cynnig brynhawn Gwener. Teimlai fod y Feddygfa 'nawr yn gallu cynnig gwell gwasanaeth i'r claf.

Cam arall fydd gallu gwneud apwyntiadau arlein – bydd y drefn yma yn dechrau'n weddol fuan.

Datganwyd pryder am yr iaith ar y teleffon, a dywedodd Dr. Morris yn anffodus na all wneud dim am hyn gan eu bod mewn Cytundeb pum mlynedd gyda'r cwmni cyflenwi.

Dywedodd hefyd fod apwyntiadau ar y diwrnod wedi gostwng y cleifion oedd ddim yn troi i fyny er bod ganddynt apwyntiad.

Mae'r apwyntiadau argyfwng yn dod i ben ac ni fydd angen egluro i'r derbynydd pam fod angen gweld y Meddyg. Hefyd mae'r llinell apwyntiadau yn mynd i agor am wyth y bore.

Gofynnwyd i Dr. Morris a oedd bwriad recriwtio Meddyg arall i'r Feddygfa – dywedodd nad oedd ar y pryd.

Dywedodd ymhellach eu bod fel Meddygfa yn cyd-weithio'n agos gyda Meddygfeydd eraill yn y cylch a'u bod yn cyfarfod bob mis ers tair blynedd bellach.

Ar nodyn positif dywedodd Dr. Morris ei fod yn teimlo fod dyfodol i'r Feddygfa ym Motwnnog.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ac yna ymadawodd Dr. Morris â'r cyfarfod gyda mawr ddiolch iddo am roi o'i amser i ddod atom.

21. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ffurflen.

22. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 15fed MAI, 2017**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 15fed Mai, 2017.

**MATERION YN CODI**

a) **Eitem 10 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (a) Eitem 104 Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor**

**Cyflwynwyd** adroddiad gan y Clarc mai dal i ddisgwyl am ymateb y Swyddfa Archwilio yr oeddem.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

b) **Eitem 10 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (b) Eitem 110 Materion Iechyd**

**Adroddodd** y Clarc iddi gael ar ddeall gan Mrs. Carol Williams, Cyngor Iechyd Cymuned nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod hwn ond byddai'n barod i ddod yn hwyrach yn y flwyddyn.

**Penderfynwyd** ei gwahodd i gyfarfod Medi/Hydref.

c) **Eitem 13 Materion Ffyrdd – cymal (b) camfeydd**

**Adroddodd** y Clarc iddi dderbyn e-bost ar 5ed Mehefin gan Mr. Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd, yn hysbysu y byddai'n ymweld a'r camfeydd a dynnwyd sylw atynt ac yn adrodd yn ôl.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

ch) **Eitem 17 – Etholiadau Cyngorau Cymuned a Thref**

**Cyflwynwyd** atebiad gan Einir Wyn, Clarc Cyngor Cymdeithas Llanengan, yn dilyn eu cwyn eu bod wedi cael trafferth wrth gyflwyno eu papurau enwebu ym Mhwlheli. Trafodwyd hyn y cyfarfod diwethaf a deallwyd nad oedd yr un o aelodau Botwnnog wedi cael y drafferth. Dyma atebiad Einir Wyn i hyn yn hysbysu “Mae’n rhaid i mi ddweud mai syndod ydi darllen eich ymateb o gymharu ag ymatebion cyngorau eraill, ar wahân i Bwlheli... Ymatebodd Robin drwy ddweud y penodwyd dau ddyddiad penodol i gyflwyno’r ffurflenni yn Nwyfor ac mai ar wefan Gwynedd welodd o hynny a gofyn i’r Swyddog Etholiadau – ni dderbyniais i unrhyw wybodaeth o’r fath ar wahân i’r llythyr gwreiddiol.”

**Penderfynwyd** nodi’r atebiad yn unig gan, fel y’i nodir eisoes, na fu i unrhyw un o aelodau’r Cyngor hwn gael unrhyw drafferth wrth gyflwyno eu ffurflenni enwebiad.

23. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn:

- (a) Cais C17/0451/32/LL – creu mynedfa amaethyddol newydd – Pen y Bont, Botwnnog.
- (b) Cais C17/0450/32/LL – estyniad llawr cyntaf – Bron Llwyd Fawr, Botwnnog.

**Penderfynwyd** cefnogi’r ddau gais.

24. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i’w anfon ymlaen.

25. **MATERION FFYRDD**

**Penderfynwyd**

- (a) Gofyn i Mr. J.A. Pozzi farbio Llwybr Pengopa.
- (b) Anfon at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn tynnu sylw at y gwaith bler a wnaed wrth dorri’r gwellt ym mhentef Botwnnog.

26. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi’r taliadau a ganlyn:

Y Clarc	£372.75
HMRC	£ 93.00

Yn y cyswllt hwn gofynnodd y Clarc am gadarnhad y Cyngor eu bod yn fodlon i’r rhai sydd eisoes wedi eu henwebu ar 11eg Gorffennaf, 2016 ac yn dal yn aelodau o’r Cyngor i arwyddo sieciau – unrhyw ddau:

Y Cyngorwyr David Brunelli, Ifor Owen, Harry Richards, Glenys Williams a'r Clarc

**Penderfynwyd** glynu at yr un drefn.

27. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

**Penderfynwyd** fod cyfarfod arbennig o'r Cyngor i'w alw ar Nos Lun, 26ain Mehefin am 7.00 y.h. yn Neuadd Goffa Sarn i drafod y cyfrifon yn dilyn derbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol.

27(a) **GWEITHREDOEDD Y FYNWENT**

**Adroddodd** y Clarc iddi hi a'r Cyngorydd Harry Richards fynychu Cangen HSBC ym Mhwlheli i ddod a Gweithredoedd y Fynwent oddi yno.

**Penderfynwyd**

- (i) Gwneud ymholiadau gyda'r HSBC er canfod faint fyddai'r gôst o gael cadw'r gweithredoedd yn y gangen.
- (ii) Fod Y Cyngorydd Michael Strain i adrodd yn ôl faint fyddai'r gôst o gofrestru'r tir.

27(b) **UN LLAIS CYMRU**

**Penderfynwyd** penodi'r Cyngorwyr David Brunelli a Harry Richards i gynrychioli'r Cyngor ar Un Llais Cymru, Cangen Arfon/Dwyfor (nodyn – hyn oherwydd fod John Rhys Jones wedi ymddeol o'r Cyngor).

28(c) **GWEFAN**

**Penderfynwyd** gofyn i'r Cyngorydd Michael Strain adrodd ar y sefyllfa bresennol ynglyn a bod yn rhan o wefan Llanw Llyn.